Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd:Prif Radiograffydd Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth** | Ysgol Meddygaeth y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Prif Radiograffydd Ymchwil |
| **Adran/Pwnc:** | Cyfleuster Delweddu Clinigol |
| **Cyflog:** | Gradd 9: £46,735 - £55, 755 y flwyddyn (pro rata) ynghyd â buddion pensiwn Cynllun USS |
| **Oriau gwaith:** | I'w gadarnhau |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan 31 Gorffennaf 2026 |
| **Lleoliad:** | Sefydliad Gwyddor Bywyd 2 (ILS2), Campws Parc Singleton |

**Prif Ddiben y Swydd**

**Delweddu a Gofal Cleifion, Gwirfoddolwyr Ymchwil a Chyfranogwyr Treialon Clinigol**

1. Cynnal archwiliadau CT ac MRI o safon mewn lleoliadau clinigol, ymchwil a threialon clinigol, gan sicrhau cynhyrchu delweddau cywir a'u hadolygu, gan gynnwys mewn meysydd arbenigol fel MRI cardiaidd.
2. Rhoi gofal cynhwysfawr i gleifion, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr treialon clinigol, gan gynnwys rhoi esboniadau clir, sgrinio diogelwch, monitro yn ystod triniaethau, rhyddhau'n ddiogel a chynnal amgylchedd gofalgar a chyfrinachol.
3. Gosod canwla IV mewn cleifion a gweinyddu cynhyrchion fferyllol fel y bo'n briodol.
4. Adnabod a gwella arteffactau MRI lle bo'n bosib, a cheisio cymorth gan ffisegwyr MRI pan fydd angen.

**Rheoli Llif Gwaith a'r Cyfleuster**

5. Rheoli rhestrau llwyth gwaith a llif gwaith dyddiol er mwyn bodloni galwadau clinigol ac ymchwil mewn ffordd effeithlon.
6. Dilyn rheolau'r Cyfleuster Delweddu, gan gynnwys llywodraethiant clinigol, SOPs, polisïau diogelwch, polisïau sicrhau ansawdd a rheolau lleol.
7. Cysylltu â gwerthwyr sganwyr i roi gwybod am broblemau/eu datrys a chael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio fel y bo'n briodol.
8. Archwilio ac adolygu ansawdd delwedd ar gyfer protocolau newydd a phresennol er mwyn sicrhau bod ansawdd y ddelwedd yn cael ei optimeiddio.
9. Gweithio gyda Rheolwr Swyddfa'r Cyfleuster Delweddu ar y rhestrau gwaith.
10. Cysylltu â'r adran Ystadau a darparwyr allanol cyfarpar yn y Cyfleuster Delweddu i sicrhau bod yr holl gyfarpar ategol yn ddiogel ac yn addas i'r diben.

**Datblygiad a Hyfforddiant Staff**

11. Gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gwyddonol a Chlinigol i gynnal sesiynau sefydlu staff, hyfforddiant ac arfarniadau.
12. Cyfrannu at addysgu, hyfforddiant ac asesu staff ymchwil a myfyrwyr mewn CT/MRI, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Cyfarwyddwr Gwyddonol.
13. Rhoi hyfforddiant a goruchwylio radiograffwyr iau, staff ymchwil, myfyrwyr a chynorthwywyr clinigol.
14. Datblygu a chynnal systemau cyfathrebu effeithiol ar gyfer staff y Cyfleuster Delweddu a chydweithredwyr allanol.

**Datblygu Ymchwil a Phrotocol**

15. Cydweithio ag ymchwilwyr o Brifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a thu hwnt ar brosiectau ymchwil a threialon clinigol o dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Gwyddonol.
16. Cynorthwyo gyda datblygu protocolau ymchwil MRI a threialon clinigol, gan weithio gyda ffisegwyr MRI ar brotocolau sganio uwch (e.e. MRI mewn radiotherapi, sbectrosgopeg) a datrys problemau ansawdd delweddau a chanfod diffygion.
17. Sicrhau bod dogfennaeth briodol wedi'i chwblhau ar gyfer ymchwil a threialon clinigol.
18. Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gwyddonol i sicrhau cyllid allanol ar gyfer ymchwil a threialon clinigol.

| | |
|---|---|
| | 19. Gweithio gyda'r Uwch-radiograffydd Ymchwil a Datblygu i gefnogi gwaith delweddu, sganio a phrosesau clinigol effeithiol.<br><br>**Llywodraethiant, Cydymffurfiaeth a Rheoli Risg**<br>20. Bod yn Berson Cyfrifol MR ar gyfer yr uned MRI ac yn Oruchwyliwr Diogelu Rhag Ymbelydredd yr uned CT.<br>21. Cynnal llywodraethiant diogelu data, gan ddilyn y Ddeddf Diogelu Data, protocolau'r Bwrdd Iechyd a'r Brifysgol (gan gynnwys PACS ac RIS).<br>22. Cydymffurfio â phrotocolau rheoli risg y Brifysgol a chynrychioli'r Cyfleuster Delweddu mewn pwyllgorau iechyd a diogelwch fel y bo'n briodol.<br>23. Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a pherthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>24. Bod yn gwrtais wrth aelodau eraill o staff.<br>25. Ymgymryd â hyfforddiant DPP sy'n briodol i'r rôl. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 26. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>27. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>28. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o’r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>29. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>30. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â chyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd –Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>Yn ogystal, byddwch yn gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth:<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn datblygu’n bersonol ac yn datblygu ein timau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy’n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys ein pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesi a newid, gan wella perfformiad y Brifysgol, timau ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timau i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i ragori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn gyfrifol am greu amgylcheddau sy’n dangos cydraddoldeb ac yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, gan gyfleu’r “darlun mawr” a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn ofalgar**<br>Rydym yn creu amgylcheddau sy’n nodi, yn deall ac yn rhoi blaenoriaeth i anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a’r cyhoedd). Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timoedd i ddarparu’r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe. |
| **Manyleb Person** | <u>**Meini Prawf Hanfodol:**</u><br><br>**Gwerthoedd Arweinyddiaeth:**<br>• Tystiolaeth o greu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan ddatblygu a herio timau i lwyddo, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol. |

| | |
|---|---|
| | • Gallu i alluogi timau i weithio gyda'i gilydd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid, a chreu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her.<br>• Tystiolaeth o brofiad o greu amgylcheddau sy’n nodi ac yn deall anghenion y cwsmer, ac sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiwallu'r anghenion hynny, ynghyd ag ysgogi ac ysbrydoli timau i ddarparu’r safonau uchaf o ofal personol.<br><br>**Cymwysterau**<br>• BSc mewn Radiograffeg Ddiagnostig neu gyfwerth.<br>• Cofrestriad gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) fel Radiograffydd Diagnostig.<br>• Hyfforddiant MRI ôl-raddedig.<br>• Cymhwyster lefel meistr ôl-raddedig neu gyfwerth mewn lleoliad ymchwil.<br>• Profiad o reoli.<br>• Ardystiad Gosod Caniwla Mewnwythiennol (IV).<br><br>**Profiad**<br>• Profiad sylweddol o weithio ym maes MRI.<br>• Profiad mewn ystod eang o ddulliau sganio MRI, gan gynnwys MRI cardiaidd.<br>• Profiad o weithio ym maes CT.<br>• Y gallu i weithio mewn timau amlbroffesiwn gan gynnwys staff clinigol a gwyddonol.<br>• Profiad o ddefnyddio systemau gwybodaeth radioleg a defnyddio system PACS.<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau**<br>• Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys y defnydd o gymwysiadau Microsoft.<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol gan gynnwys y gallu i gyfleu materion emosiynol a sensitif gydag empathi.<br>• Sgiliau negodi da.<br>• Y gallu i weithio'n effeithiol yn annibynnol.<br>• Sgiliau gweithio mewn tîm da.<br>• Dealltwriaeth gadarn o anatomeg drawstoriadol.<br>• Dealltwriaeth ardderchog o ddeddfwriaeth ymbelydredd ïoneiddio gan gynnwys IRR ac IR(ME)R.<br>• Dealltwriaeth ardderchog o ddiogelwch MRI.<br>• Dealltwriaeth ardderchog o arteffactau MRI a'u gwella.<br><br>**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**<br>• Profiad o MRI cardiaidd.<br>• Profiad o waith ymchwil MRI.<br>• Profiad o hyfforddi myfyrwyr.<br>• Hyfforddiant cymorth bywyd canolradd.<br>• Ardystiad ymarfer clinigol da. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – ‘a little’ - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Dr Jonathan Phillips J.W.Phillips@abertawe.ac.uk<br><br>**Rhaid cael gwiriad DBS 'Uwch gyda Rhestrau Gwahardd Oedolion a Phlant' ar gyfer y swydd hon.** |